



Ein cyf/Our ref LG/0859/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@cynulliad.cymru

8 Ionawr 2019

Annwyl Mick,

Bil Pysgodfeydd y DU – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Gan fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd, hoffwn dynnu'ch sylw at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sydd wedi cael ei osod heddiw. Amgaeaf gopi er gwybodaeth ichi.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau gwelliant yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin sy'n darparu ar gyfer estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o ran materion yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod mewn perthynas â Pharth Cymru. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen yn gyfansoddiadol a bydd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Bil Pysgodfeydd gan y Cynulliad mewn perthynas â Chymru a Pharth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu deddfu eisoes (ac y bydd yn parhau i fedru gwneud hynny) mewn perthynas â chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i Gymru ar y sail y byddai deddfwriaeth o'r fath "in relation to Wales" at ddibenion adran 108A(2)(b) o Ddeddf 2006.

Mae'r cymal 39 newydd yn diwygio adran 108A (cymhwysedd deddfwriaethol) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ac yn gwneud nifer o newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2006.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil i'w gweld yma:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/18278.pdf>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Memorandwm Atodol hefyd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Cymal 18, ar ôl inni godi pryderon yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 15 Tachwedd. Mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd gennym y dulliau mwyaf priodol ac eang ar gyfer rheoli pysgodfeydd Cymru wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Rwyf yn disgwyl gosod Memorandwm Atodol arall yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil, ar ôl cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am welliannau pellach a chyn cyflwyno dadl yn y Cynulliad er mwyn iddo gael ystyried rhoi ei gydsyniad i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn Gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley". The signature is written in a light grey or blue ink on a white background.

Lesley Griffiths AC / AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs